Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwarchodfa Natur Genedlaethol

# Coedydd Maentwrog | Coed Llyn Mair

National Nature Reserve

Rhan o **Goedydd Derw Meirionnydd**
Part of **Meirionnydd Oakwoods**

## Croeso i Warchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Maentwrog

Rydych ar drothwy un o 'goedwigoedd glaw' Cymru!

**A wyddech chi fod y coed derw yma yn nheyrnas hynafol Meirionnydd yng ngogledd-orllewin Cymru mor bwysig â rhai coedwigoedd glaw trofannol, a'r un mor fregus hefyd?**

Maent yn gartref i rai o'r enghreifftiau gorau o Goetir Derw Iwerydd yn Ewrop. Mae'r cynefin unigryw hwn yn gyforiog o fywyd gwyllt ac yn werthfawr iawn i'r bobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan gynnig harddwch dihafal i ymlacio ynddo.

### Mwsogl sy'n rhyngwladol bwysig?

Dim ond mewn ardaloedd llaith y bydd llawer o'r mwsoglau, llysiau'r afu a'r cennau sy'n addurno'r creigiau a boncyffion y coed derw yma yn goroesi – a rhai ohonynt mor brin nes eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol! Oherwydd yr holl law a'r ewyn dwr o'r nentydd serth, mae'r aer yn cadw'n llaith o dan gysgod y coed – gan greu coedwigoedd glaw 'tymherus' sy'n fyd-eang brin.

Gwarchodir chwech o Goedydd Derw mawr ym Meirionnydd fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol – a phedair ohonynt yn hawdd ymweld â hwy. Dyma un ohonynt – olion coedwig helaeth a ymestynnai ar un adeg i lawr ochr orllewinol Prydain ac Iwerddon.

## Welcome to Coedydd Maentwrog National Nature Reserve

You are about to enter one of Wales's 'rainforests'

**Did you know that the oakwoods here in the ancient kingdom of Meirionnydd in north west Wales are as globally important, and as vulnerable as, some tropical rainforests?**

They are home to some of the best examples of Atlantic Oak Woodland in Europe. This unique habitat is rich in wildlife and highly valued by local people and visitors alike as a place of unrivalled beauty to relax in.

### Internationally important moss?

Many of the mosses, liverworts and lichens which adorn the oak tree trunks and rocks here survive only in humid areas – some are so rare that they are of international importance! The high rainfall and spray from the steep streams means the air remains humid under the shade of the trees – creating globally rare 'temperate' rainforests.

Six large Meirionnydd Oakwoods are protected as National Nature Reserves – with four that are easy to visit. This is one of them – a remnant of a vast Atlantic 'wildwood' that once extended down the western side of Britain and Ireland.

## Lleoliadau Coedydd Derw Meirionnydd | Meirionnydd Oakwoods Locations




© Airbus Defence & Space a Getmapping. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Llywodraeth Cymru (Taliadau Gwledig Cymru) – Mawrth 2021 © Airbus Defence & Space and Getmapping. Reproduced by permission of Welsh Government (Rural Payments Wales) – March 2021

## Coedydd Maentwrog – Coetir derw i ddiwydiant, yn awr i fyd natur

Mae coetir derw Coedydd Maentwrog yn ymestyn ar draws llethrau gogleddol Dyffryn Maentwrog.

Gweithiwyd y lle yn rhan o ystâd Tan-y-bwlch ers y 14eg ganrif o leiaf, ac arferai'r coed hyn ddarparu pren ar gyfer mwyndoddi yn yr Oes Haearn, cynhyrchu golosg ac adeiladu llongau, adeiladu tai, ac yn ddiweddarach pyst ar gyfer pyllau glo De Cymru. Byddai rhisgl coed derw yn cael ei ddefnyddio hefyd yn y tanerdy lleol i drin lledr, a byddai'r mes yn bwydo moch a fyddai'n cael eu dychwelyd i'r goedwig yn yr hydref a dechrau'r gaeaf.

Roedd y warchodfa hefyd ar y ffordd a ddefnyddid i gludo llechi o'r chwareli ym Mlaenau Ffestiniog i borthladd Porthmadog. Adeiladwyd Rheilffordd Ffestiniog, sy'n rhedeg gerllaw, at yr union ddiben hwn.

Mae'r derw a welwch yn awr hyd at 200 mlwydd oed. Mae'n rhyfeddol y gall coed mor fawr ffynnu mewn priddoedd mor fas a sâl eu hansawdd.

## Beth i edrych amdano

### Nefoedd mwsogl, llysiau'r afu a chennau

Safwch ger y ceunant, lle mae canopi'r coed yn fwy trwchus ac mae ewyn dŵr yn codi'n ddi-baid o'r nant, ac fe deimlwch ar unwaith ei bod yn fwy llaith yno. Mae hyn yn creu amodau perffaith ar gyfer 200 o rywogaethau o fwsogl a llysiau'r afu a 120 o rywogaethau o gen, gan gynnwys cen ysblennydd llysiau'r ysgyfaint sy'n tyfu ar goed aeddfed.

### Gwyfynod ar y fwydlen i ystlumod

Mae'r goedwig hefyd yn gartref gwych i bryfed, a 286 o wahanol fathau o wyfynod bychain yn unig. Ceir digonedd o fwyd felly i'r ystlumod amrywiol sy'n byw yma. Ar nosweithiau cynnes o haf, os byddwch yn lwcus, efallai y gwelwch yr ystlum pedol lleiaf prin, yn hela'n uchel ym mrigau'r goedwig.

Yn yr haf, efallai y byddwch yn ddigon bodlon yn eistedd yn un o'r llennyrch llonydd yn aros i'r tingochiaid, y gwybedogion brith a theloriaid y coed gyrraedd – y mudwyr haf sy'n nodweddiadol o 'goed derw ucheldirol'.

## Coedydd Maentwrog – Oak woodland for industry now for nature

The oak woodland of Coedydd Maentwrog sweeps across the northern slopes of the Vale of Maentwrog.

Worked as part of the Tan-y-bwlch estate since at least the 14th century, these trees once supplied timber for Iron Age ore smelting, wood for charcoal burning and timber for ship building, house building, and more recently pit props for the South Wales coal mines. The bark of oak trees was also used in the local tannery for treating leather, and the acorns fed pigs which were turned into the woods in autumn and early winter.

The reserve was also en route for the transport of slate from the quarries at Bleanau Ffestiniog to the port of Porthmadog. The Ffestiniog Railway, which runs nearby, was built for this very purpose.

The oaks you see now are up to 200 years old. It is remarkable that such large trees can thrive in such poor, shallow soils.

## What to look out for

### Moss, liverwort and lichen heaven

Stand near the ravine, where the tree canopy is thicker and a constant spray rises from the stream, and you will immediately feel the greater humidity. These create the perfect conditions for a dazzling 200 species of mosses and liverworts and 120 species of lichen, including the large and spectacular lungwort lichen which grows on mature trees.

### Moths on the menu for bats

The woods are also a great place for insects to live in with a staggering 286 different kinds of small moth alone. This abundance provides food for the many bats that nest here. On warm summer evenings, if you're lucky, you might catch sight of the tiny and rare lesser horseshoe bat, hunting high in the woodland canopy.

In summer you may just want to sit in one of the tranquil clearings and wait for the redstarts, pied flycatchers and wood warblers to turn up – the classic 'upland oakwood' summer migrants.


tingoch
redstart


cen llysiau'r ysgyfaint
lungwort lichen


ystlum pedol lleiaf
lesser horseshoe bat



## Beth allwch chi wneud oddi yma?

Gallwch ddarganfod Coedydd Maentwrog drwy ddilyn y llwybr cerdded cylchol drwy'r coetir, a chwilio am y cerfluniau ar y ffordd. Neu beth am ddilyn y llwybr dolen i orsaf Tan-y-Bwlch lle gallwch barhau â'ch antur ar Reilffordd Ffestiniog.

## What can you do from here?

Discover Coedydd Maentwrog by following the circular walk through the woodland, keeping an eye out for the sculptures along the way. Or follow the station link path to Tan-y-Bwlch station where you can continue your adventure on the Ffestiniog Railway.





### LLWYBR GORSAF GYSWLLT | STATION LINK WALK

**Hawdd | Easy**
Pellter | Distance: ¼m/0.6km
Amser | Time: 30 munud | minutes
Dringo | Climb: 118tr/ft | 36m
Allan ac yn ôl | Out and back

**UCHAFBWYNTIAU: Coed derw hynafol a threnau stêm.** ilynwch yr arwyddion glas a dringo'n raddol drwy'r coetiroedd derw hyd at orsaf reilffordd Tan-y-Bwlch. Mae wyneb y llwybr yn llydan a chadarn a cheir rhigolau dŵr o bryd i'w gilydd a rhes fechan o risiau. Ceir mannau gorffwys bob 100m a byrddau picnic ar ben y bryn.

**HIGHLIGHTS: Ancient oakwoods and steam trains.** Follow the blue waymarkers to climb gradually through the oak woodlands to the Tan y Bwlch railway station. The path has a wide, well made surface with occasional water bars and a short flight of steps. There are resting places every 100m and picnic tables at the top of the climb.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE





### LLWYBR COED LLYN MAIR | COED LLYN MAIR WALK

**Cymedrol | Moderate**
Pellter | Distance: ½m/0.6km
Amser | Time: 30-45 munud | minutes
Dringo | Climb: 118tr/ft | 36m
Llwybr cylch | Circular walk

**UCHAFBWYNTIAU: Awyrgylch coedwig law y coetir derw hynafol.** Dilynwch yr arwyddion coch wrth i'r llwybr ddringo drwy'r coed, a chwiliwch am y cerfluniau bach a mawr ar y ffordd. Yna, mae'r llwybr yn arwain i lawr ar hyd ochr y ceunant a cheir golygfeydd o'r nant islaw. Mae wyneb y llwybr yn naturiol gyda chreigiau a gwreiddiau amlwg, a sawl cyfres o risia.

**HIGHLIGHTS: The rainforest atmosphere of the ancient oakwoodland.** Follow the red waymarkers as the trail climbs up through the woods, looking out for sculptures large and small along the way. The trail then descends alongside the ravine with views to the stream below. The path has a natural surface with exposed rocks and roots, and several flights of steps.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021. OS 100019741
© Crown copyright and database rights 2021. OS 100019741

P parcio / parking
ffin y GNG / NNR boundary
lle picnic / picnic area
mainc / bench
llwybr cyhoeddus / public footpath

### ER EICH DIOGELWCH:

- **Rheilffordd** gul a threnau aml – peidiwch **byth â cherdded ar y cledrau**.
- **Llethrau, clogwyni a chreigiau serth** – gwisgwch esgidiau addas, cadwch at y llwybrau a chymerwch ofal.
- **Llwybr serth ac anwastad** o orsaf Tan y Bwlch ar ochr ddwyreiniol yr afon – ewch ar hyd y llwybr hawdd os ydych yn ansicr – ochr orllewinol yr afon.

Dilynwch y **Cod Cefn Gwlad**: Parchwch, Diogelwch a Mwynhewch gefn gwlad. Gobeithio y mwynhewch eich ymweliad.

### FOR YOUR SAFETY:

- Narrow gauge **railway line** with frequent trains – **never walk on the railway track**.
- **Steep slopes, cliffs and crags** – wear appropriate footwear, **keep to paths** and take care.
- **Steep path with uneven surface** from Tan y Bwlch station on the eastern side of the river – use the easy linear route if in doubt – western side of river.

Follow the **Countryside Code**: Respect, Protect and Enjoy the countryside. We hope you enjoy your visit.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r Warchodfa Natur Genedlaethol hon; rhannau o gefn gwlad lle mae enghreifftiau arbennig o gynefinoedd a bywyd gwyllt Prydain wedi'u gwarchod.

Natural Resources Wales manages this National Nature Reserve (NNR); areas of the countryside where special examples of Britain's habitats and wildlife are protected.

**GWYBODAETH MEWN ARGYFWNG: Ffoniwch 999 a gofyn am yr Heddlu.**
**Lleoliad Presennol:** Maes Parcio Llyn Mair - Cyfeirnod Grid AO: **SH 653 413**

**EMERGENCY INFORMATION: Phone 999 & ask for Police.**
**Current Location:** Llyn Mair Car Park - OS Grid Reference: **SH 653 413**

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**